



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GŴYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for a

**CYFARFOD BLYNYDDOL O
CYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**ANNUAL MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

a gynhelir yn

to be held at the

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGFNI**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGFNI**

**DYDD MAWRTH,
14 MAI 2019
am 2.30 o'r gloch yp**

**TUESDAY,
14 MAY, 2019
at 2.30 pm**

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1. **CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2019/20.

(Cyfeirir yr Aelodau at y ddogfen 'Trefn y Gweithgareddau' ar gyfer ethol Cadeirydd y Cyngor Sir a ddosberthir yn y cyfarfod).

2. **IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2019/20.

3. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

4. **CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr ac unrhyw sylwadau terfynol am ei gyfnod yn y swydd gan y Cadeirydd y mae ei dymor yn dod i ben.

5. **RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR SIR AR GYFER 2019/20**

Cymeradwyo'r rhaglen isod o gyfarfodydd y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod :-

- 10 Medi, 2019 - 2.00 o'r gloch yp
- 29 Hydref, 2019 (Arbennig) - 2.00 o'r gloch yp
- 10 Rhagfyr, 2019 - 2.00 o'r gloch yp
- 25 Chwefror, 2020 - 2.00 o'r gloch yp
- Mai 2020 (Cyfarfod Blynyddol) - dyddiad i'w gadarnhau

6. **DIRPRWYAETH GAN YR ARWEINYDD/AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2 y Cyfansoddiad, yr Arweinydd i roi gwybod enwau'r Cyngorwyr a ddewiswyd i fod yn Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys eu Portffolio.

7. **ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AM 2019/20**

Ethol Cadeirydd yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 y Cyfansoddiad.

8. **CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor ydyw i'w chytuno (fel y nodir ym Mharagraff 3.2 o'r Cyfansoddiad).

9. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

10. CYRFF ALLANOL

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL- FFRAMWAITH AR GYFER TALIADAU I AELODAU YN 2019/20

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog 151 ar Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r uchod.

12. CADARNHAU PWYLLGORAU

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau canlynol fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor)
- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
- Is-Bwyllgor Indemniadau

13. CYNLLUN DATBLYGU AELODAU 2019/20

I gyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 2 Mai 2019.